Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Canllaw i gyflawni rhagoriaeth wrth gyflwyno hyfforddiant Cymraeg mewn dysgu yn y gwaith

## Papur trafod

## Rhagfyr 2013

Mae dogfen Llywodraeth Cymru 'Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog' yn cynnwys targed allweddol i sicrhau bod 'mwy o wasanaethau, gan sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn gallu cael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gan ddarparwyr dysgu yn y gwaith rôl mewn cyflawni'r targed hwn trwy hyfforddi deiliaid swyddi Cymraeg y dyfodol a all gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd angen i ddarparwyr ystyried nod Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth **Iaith fyw: Iaith byw** yn eu gwaith hefyd a chefnogi gwireddu ei gweledigaeth dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r strategaeth yn nodi chwe maes ar gyfer gweithredu, sef:

1 annog a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn teuluoedd;
2 cynyddu darpariaeth gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith;
3 cryfhau safle'r iaith Gymraeg yn y gymuned;
4 cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;
5 gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion; a
6 chryfhau'r isadeiledd, gan gynnwys technoleg a chyfryngau, ar gyfer yr iaith.

**Iaith fyw: iaith byw, tudalen 16**

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ym Mhwynt Gweithredu 6 yn hynod berthnasol i ddarparwyr dysgu yn y gwaith.

Ar hyn o bryd, mae dysgwyr yn y gwaith yng Nghymru yn rhannu'n fras yn ddau brif grŵp, sef; dysgwyr sydd wedi mynychu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a dysgwyr sydd wedi mynychu addysg cyfrwng Saesneg. Bydd dysgwyr sydd wedi mynychu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog wedi cael o leiaf ychydig, os nad y rhan fwyaf o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg a gallent fod wedi astudio Cymraeg i lefel TGAU. Bydd dysgwyr sydd wedi mynychu addysg cyfrwng Saesneg wedi cael llawer llai o gyswllt â'r iaith o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, gallai llawer ohonynt fod wedi astudio Cymraeg ail iaith TGAU naill ai fel cwrs byr neu gwrs llawn. Mae rhai dysgwyr yn cyrraedd o wledydd eraill heb unrhyw brofiad o ddysgu Cymraeg.

Nod cyflwyno unrhyw raglen alwedigaethol Gymraeg mewn dysgu yn y gwaith yw ymestyn medrau Cymraeg dysgwyr i'w galluogi i deimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol a gallu cymryd rhan yn llawn mewn cymuned ddwyieithog.

Bydd angen i ddarparwyr hyfforddiant deilwra eu rhaglenni hyfforddiant galwedigaethol yn unol ag anghenion ieithyddol Cymraeg unigolion, eu darpar gyflogwyr a'r gymuned leol y maent yn ei gwasanaethu.

Yn y gorffennol, mae trefniadau pontio ar gyfer dilyniant ieithyddol mewn Cymraeg ar gyfer dysgwyr o'r ysgol i ddarparwyr yn y gwaith yn aml wedi bod yn anghyson ar ei orau. Ychydig iawn o wybodaeth fanwl am gyrhaeddiad dysgwyr yn y Gymraeg a

gafodd darparwyr yn y gwaith gan ysgolion uwchradd sy'n eu bwydo. Mae hyn yn amharu ar barhad a dilyniant i ddysgwyr yn eu medrau Cymraeg.

Yn aml, nid yw darparwyr a dysgwyr yn cael digon o wybodaeth am y cymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg nac am y galw amdanynt gan gyflogwyr. Nid yw darparwyr bob amser yn ymwybodol o ba adnoddau sydd ar gael a ble i ddod o hyd iddynt.

Ni fydd cyflwyno rhaglen syml o ymadroddion Cymraeg a addysgir mewn rhai darparwyr ar hyn o bryd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn briodol ac ni fydd yn galluogi iddynt fod yn rhan o weledigaeth Llywodraeth Cymru i fod yn Gymraeg sy'n gwbl ddwyieithog.

Mae'r papur trafod hwn yn amlinellu disgwyliadau arolygwyr Estyn o ran cyflawni barn 'rhagorol' wrth gyflwyno'r Gymraeg mewn meysydd galwedigaethol mewn dysgu yn y gwaith.

**Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn**

**Cwestiwn Allweddol 1: Safonau**

**1. 1: Safonau**

1. 1. 1 canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol
1. 1. 2 safonau grwpiau o ddysgwyr
1. 1. 3 cyflawniad a chynnydd mewn dysgu
1. 1. 4 medrau
1. 1. 5 yr iaith Gymraeg

**Arweiniad Estyn ar gyfer arolygu darparwyr dysgu yn y gwaith**

**1. 1. 5: Yr iaith Gymraeg**

Wrth lunio barn gyffredinol am fedrau Cymraeg dysgwyr, dylai arolygwyr ystyried beth y mae'n rhesymol ei ddisgwyl o ystyried cefndir ieithyddol dysgwyr, cyflogwyr a chyd-destun y darparwr y maent yn ei arolygu a'r ardal y mae'n ei gwasanaethu cyn llunio barn gorfforaethol am safonau mewn Cymraeg. Bydd arolygwyr yn adrodd ar safonau yn yr iaith Gymraeg lle bo'n briodol.

Dylent ystyried:

- man cychwyn y dysgwyr, a'r cynnydd a wnânt mewn perthynas â hyn; a
- chynnydd dysgwyr mewn perthynas â nodau a pholisi'r darparwr a'i Gynllun Iaith Gymraeg, lle bo'n berthnasol.

Dylai arolygwyr roi sylwadau ar gyfran y dysgwyr sy'n ennill cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo'n briodol.

**Arweiniad atodol Estyn ar gyfer arolygu'r iaith Gymraeg mewn dysgu yn y gwaith, Medi 2013**

**1. 1: Safonau**

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol wrth arolygu ac adrodd ar agwedd 1.1.5 Yr iaith Gymraeg:

- A yw cyrhaeddiad mewn meysydd galwedigaethol a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg yn cymharu'n ffafriol â chyrhaeddiad mewn darparwyr tebyg?
- A yw dysgwyr yn gwneud cynnydd da mewn sesiynau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg?
- A yw dysgwyr sy'n ymuno â'r darparwr heb lawer o gymhwysedd blaenorol yn y Gymraeg, os o gwbl, yn cyflawni'n dda?
- Lle bo'n berthnasol, a oes gan ddysgwyr afael dda ar derminoleg yn Gymraeg mewn meysydd dysgu ac ar draws y cwricwlwm?
- Lle bo'n berthnasol, a yw dysgwyr yn datblygu cymhwysedd cynyddol wrth ddefnyddio eu medrau Cymraeg?
- Fel y bo'n briodol, a yw dysgwyr yn hyderus ac yn gymwys wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd y tu hwnt i'w sesiwn Gymraeg?
- Mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a yw pob un o'r dysgwyr yn cwblhau gwaith ysgrifenedig ac asesiadau terfynol yn Gymraeg yn yr holl feysydd a chyrsiau galwedigaethol?
- Lle bo'n berthnasol, a yw cyfran sylweddol o ddysgwyr sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith yn gwneud cynnydd da yn eu medrau Cymraeg?

**Caiff dysgu Cymraeg yn rhagorol yn aml ei nodweddu gan ddysgwyr sydd:**

- yn cyrraedd y sesiwn hyfforddi yn brydlon ac yn ymdawelu'n gyflym i wneud eu gwaith;
- yn ymddiddori'n fawr ac yn cael eu cymell yn gadarnhaol ym mhob agwedd ar y sesiwn;
- yn dangos diddordeb brwd yn y tasgau a gynllunnir ar eu cyfer;
- yn mwynhau'r sesiwn ac yn cael hwyl;
- yn datblygu'r agweddau cywir at ddysgu yn Gymraeg yn eu maes galwedigaethol;
- yn teimlo eu bod yn cael eu herio'n effeithiol ac ar y lefel gywir yn Gymraeg;
- yn galw i gof y gwaith a ddysgwyd yn flaenorol yn dda;
- yn gwneud cynnydd da ac yn dysgu'n dda yn ystod y sesiwn;
- yn ymgysylltu'n dda yn y sesiwn;
- yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson yn ystod y sesiwn;
- yn gwneud sylwadau perthnasol yn Gymraeg yn ystod y sesiwn;
- yn holi ac yn ateb ystod o gwestiynau perthnasol yn Gymraeg;
- yn rhyngweithio'n gynhyrchiol gyda'r hyfforddwr yn Gymraeg a dysgwyr eraill, lle bo'n berthnasol;
- yn fodlon cynnig syniadau;
- yn falch o'u gwaith; ac
- yn cefnogi dysgu ei gilydd yn dda, yn enwedig mewn gwaith pâr a gwaith grŵp.

**Arweiniad atodol Estyn ar gyfer arolygu'r iaith Gymraeg mewn dysgu yn y gwaith, Medi 2013**

**1. 2: Lles**

- A yw dysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol a mwynhad wrth ddysgu Cymraeg?
- Pa gyfrannau o ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau neu weithgareddau allgyrsiol neu gymunedol lle gallant ddefnyddio eu medrau yn Gymraeg?
- Yn y sector cyfrwng Cymraeg yn benodol, mae'n rhaid i ddysgwyr gasglu gwybodaeth o ffynonellau mewn un iaith a'i defnyddio yn yr iaith arall yn aml, naill ai ar lafar neu yn ysgrifenedig. Mae'r 'medrau llythrennedd deuol'[1] hyn yn bwysig gan eu bod yn galluogi dysgwyr i fanteisio ar ystod ehangach o ddeunyddiau dysgu. Maent yn atgyfnerthu eu medrau cyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd.

**Caiff dysgu Cymraeg yn rhagorol yn aml ei nodweddu gan ddysgwyr sydd:**

- ag agweddau cadarnhaol at ddysgu yn Gymraeg yn y gweithle;
- yn dangos mwynhad mewn sesiynau hyfforddi;
- yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol i ddatblygu eu medrau iaith;
- yn defnyddio eu medrau llythrennedd deuol yn effeithiol wrth ymgymryd â phrosiectau; ac
- yn cynnig adborth ar eu profiadau dysgu i'r darparwr.

**Adborth gan ddysgwyr**

Mae darparwyr effeithiol yn casglu adborth yn rheolaidd gan eu dysgwyr am eu profiadau Cymraeg. Mae dulliau yn cynnwys arolygon, cyfarfodydd cynrychiolwyr grŵp, ymweliadau â'r gweithle gan staff y darparwr, blychau awgrymiadau a chyfeiriadau e-bost ar gyfer rhoi adborth.

Trwy gasglu gwybodaeth fel hyn, mae'r darparwyr yn dangos bod lefelau boddhad dysgwyr yn gwella'n barhaus neu'n cael eu cynnal ar lefelau uchel iawn.

Mae sawl darparwr yn arddangos posteri yn dweud wrth ddysgwyr beth yw canlyniadau arolygon neu, lle mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn y gweithle, cânt gylchlythyrau sy'n cael eu postio.

[1] Yn y sector cyfrwng Cymraeg yn benodol, yn aml, mae'n rhaid i ddisgyblion gasglu gwybodaeth o ffynonellau mewn un iaith a'i defnyddio yn yr iaith arall, naill ai ar lafar neu yn ysgrifenedig. Mae'r 'medrau llythrennedd deuol' hyn yn bwysig gan eu bod yn galluogi disgyblion i fanteisio ar ystod ehangach o ddeunyddiau dysgu. Maent yn atgyfnerthu eu medrau cyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd.

**Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn**

**Cwestiwn Allweddol 2: Darpariaeth**

**2. 1: Profiadau dysgu**

2. 1. 1 bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr/y gymuned
2. 1. 2 darpariaeth ar gyfer medrau
2. 1. 3 darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig
2. 1. 4 addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

**Arweiniad Estyn ar gyfer arolygu darparwyr dysgu yn y gwaith**

**2. 1. 3: Darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig**

Bydd amrywiad sylweddol yn nisgwyliadau darparwyr i fodloni anghenion Cymraeg dysgwyr. Dylai arolygwyr ystyried Cynllun Iaith Gymraeg y darparwr wrth lunio'u barn. Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r darparwr yn bodloni anghenion dysgwyr y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt a/neu sydd wedi cael eu hyfforddiant naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog.

Dylent farnu i ba raddau y mae'r darparwr yn hyrwyddo datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

**Arweiniad atodol Estyn ar gyfer arolygu'r iaith Gymraeg mewn dysgu yn y gwaith, Medi 2013**

**2. 1: Profiadau dysgu**

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol wrth arolygu ac adrodd ar agwedd 2.1.3 darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig:

- A yw trefniadaeth cwricwlwm y darparwr a'r dyraniad amser yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd da a'i gynnal yn eu medrau galwedigaethol Cymraeg?
- A oes parhad rhwng yr ysgol a'r darparwr o ran profiadau dysgwyr yn Gymraeg a, lle bo'n berthnasol, graddau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg?
- Lle bo'n berthnasol, a all dysgwyr ddefnyddio ystod lawn o opsiynau cyfrwng Cymraeg?
- A yw profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm yn gwella datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru?

## Beth yw arfer ragorol yn y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg?

**Mae darparwyr effeithiol:**

**yn creu ethos Cymraeg o fewn y darparwr:**

- maent yn sicrhau bod ethos a blaenoriaethau'r sefydliad ar gyfer hyfforddiant Cymraeg yn ddealladwy a bod ymrwymiad iddynt ar bob lefel yn y sefydliad
- maent yn sicrhau bod y ganolfan yn adlewyrchu ymrwymiad y darparwr i'w flaenoriaethau yn ei Gynllun Iaith Gymraeg, lle bo'n berthnasol
- maent yn sicrhau bod arddangosiadau Cymraeg priodol ar gael

**yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn effeithiol ymhlith dysgwyr:**

- maent yn sicrhau bod tiwtoriaid Cymraeg yn cael eu neilltuo ar gyfer dysgwyr Cymraeg er mwyn iddynt allu trafod manteision a gwerth hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithiol gyda dysgwyr cyfrwng Cymraeg sy'n aml yn amharod
- maent yn sicrhau bod dysgwyr sydd wedi astudio Cymraeg ail iaith yn cael cyfle i ddatblygu eu medrau Cymraeg ymhellach
- maent yn sicrhau bod staff sydd â phrofiad o weithio ym maes galwedigaethol y dysgwyr yn gallu hyrwyddo manteision gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'u bod yn gallu darparu gwybodaeth gyfredol am gyfleoedd ar gyfer dysgu a dilyniant gyrfa pellach hefyd

Mae llawer o astudiaethau rhyngwladol wedi dangos bod dwyieithrwydd yn cynnig llawer o fanteision pwysig ar lefel bersonol yn ogystal â manteision economaidd ac o ran cyflogaeth. Mae profion sy'n mesur meddwl creadigol neu feddwl dargyfeiriol yn dangos bod siaradwyr dwyieithog yn sgorio'n uwch na'u cydweithwyr uniaith. Mae astudiaethau yn dangos bod siaradwyr dwyieithog yn ennill mwy ar gyfartaledd yn yr Unol Daleithiau ac yn fwy diweddar ym Mhrydain.

Gall siaradwyr dwyieithog gynnig ystod o fedrau defnyddiol sy'n gweddu i anghenion penodol mewn meysydd penodol yn economi Cymru, er enghraifft addysg, y cyfryngau a'r llywodraeth, yn ogystal â'r diwydiannau gofal a gwasanaethau.

**Paru dysgwyr â'r rhaglenni hyfforddiant galwedigaethol Cymraeg cywir**

- sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cymell i ddysgu a datblygu eu medrau Cymraeg ymhellach yn eu maes galwedigaethol;
- lle bo'n briodol, cynnig cyfnodau prawf, cyrsiau rhagflas gwaith neu raglenni hyfforddiant cyn cychwyn i'r rhai y mae angen datblygu eu hyder mewn defnyddio eu medrau Cymraeg, neu sy'n dymuno cael profiad cyn ymrwymo i faes galwedigaethol;
- recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg sy'n fodelau rôl Cymraeg da yn eu meysydd galwedigaethol i annog dysgwyr i ddefnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg; a
- sicrhau bod gan ddarparwyr raglenni hyfforddi sy'n gweddu i anghenion dysgwyr a chyflogwyr.

Mae cymhelliant da gan ddysgwyr yn hanfodol wrth ddatblygu cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg llwyddiannus. Heb gymhelliant digonol, ni all hyd yn oed y dysgwyr â'r galluoedd mwyaf arbennig gyflawni eu nodau gyrfa tymor hir.

Gallai rhai dysgwyr deimlo bod y Gymraeg yn rhan yn unig o fywyd ysgol ac nad yw'n cael ei gwerthfawrogi'n ddigonol yn y gweithle. Gallent fod yn amharod i ddefnyddio eu medrau Cymraeg hefyd gan fod hyn yn dangos eu bod yn wahanol i ddysgwyr eraill. Mae angen i ddarparwyr gael systemau yn eu lle i annog a chymell mantais agweddau parhaus ar eu dysgu yn Gymraeg, a hynny ar y lefel briodol.

Dylai medrau'r hyfforddwr wrth gymell dysgwyr gael eu gweld yn ganolog i effeithiolrwydd addysgu. Caiff yr effeithiolrwydd hwn ei nodweddu'n aml gan hyfforddwyr sydd:

- yn gosod esiampl bersonol gyda'u hymddygiad eu hunain;
- yn datblygu perthynas dda gyda'r dysgwyr;
- yn creu awyrgylch pleserus, hamddenol yn y sesiwn;
- yn cyflwyno'r tasgau'n briodol;
- yn cynyddu hunanhyder y dysgwyr mewn defnyddio'r Gymraeg;
- yn gwneud yr agwedd dysgu Cymraeg ar y sesiwn yn ddiddorol;
- yn hyrwyddo dysgu annibynnol;
- yn personoli'r broses ddysgu ar gyfer y dysgwr; ac
- yn gosod targedau addas a chyflawnadwy ar gyfer y dysgwr.

Mae gwelliannau a wneir i'r cyngor a'r arweiniad cychwynnol mewn digwyddiadau recriwtio neu gyfweliadau yn cynnwys:

- sicrhau bod systemau clir ar waith ar gyfer nodi anghenion Cymraeg dysgwyr yn gynnar;
- sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu cyfweld gan staff Cymraeg a staff sydd â phrofiad uniongyrchol o weithio yn y maes galwedigaethol;
- esbonio'n fanwl yr hyn sydd ei angen er mwyn cwblhau rhaglen Gymraeg ar lefelau gwahanol mewn dysgu yn y gwaith; a
- rhoi trosolwg i ddysgwyr o fanteision defnyddio'r Gymraeg wrth weithio mewn diwydiannau penodol a llwybrau gyrfa cysylltiedig.

Gallai rhai darparwyr ddefnyddio sesiynau rhagflas gwaith a chyfnodau prawf gyda chyflogwyr cefnogol i alluogi darpar ddysgwyr i gael profiad o weithio yn ddwyieithog yn y maes dysgu penodol sydd o ddiddordeb iddynt. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddeall pa mor ddefnyddiol yw eu medrau Cymraeg yn y gweithle. Mae hefyd yn galluogi dysgwyr i asesu addasrwydd eu rhaglenni arfaethedig tra byddant yn datblygu eu hunanhyder hefyd.

Yn aml, mae gan ddarparwyr raglenni hyfforddi cyn cychwyn, sy'n darparu llwybrau dilyniant i brentisiaethau, gan roi dealltwriaeth well i bobl ifanc o'r maes dysgu a manteision dwyieithrwydd.

**Cael disgwyliadau uchel mewn gosod cyfeiriad a monitro cynnydd dysgwyr**

- gosod y naws am bwysigrwydd dysgwyr yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn y sesiwn ymsefydlu;
- defnyddio asesu cychwynnol i nodi yn gynnar unrhyw angen am gymorth dysgu wrth ddysgu Cymraeg;
- arfarnu rôl swydd pob dysgwr i nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu eu medrau Cymraeg yn y gweithle; a
- llunio cynllun dysgu unigol ar gyfer Cymraeg fel cofnod allweddol o gynnydd ar gyfer dysgwyr, hyfforddwyr a chyflogwyr.

Mae’r sesiynau ymsefydlu gorau yn helpu dysgwyr i ddeall yn glir beth a ddisgwylir ohonynt er mwyn cwblhau eu rhaglen yn llwyddiannus.  Mae’r rhan fwyaf o’r darparwyr hyn yn defnyddio cyfnodau ymsefydlu estynedig, weithiau dros gyfnod o sawl wythnos.  Rhoddir amser i ddysgwyr newydd ddangos ymrwymiad i hyfforddi ac maent yn magu brwdfrydedd ac yn dod yn fwy ymwybodol o fanteision hyfforddiant, gan gynnwys datblygu eu medrau Cymraeg ymhellach.

Gall mentoriaid sy’n siarad Cymraeg fod yn fodelau rôl da a chynnig cymorth iaith a chymorth ymarferol i ddysgwyr.  Yn yr achosion gorau, neilltuir mentoriaid i fodloni anghenion galwedigaethol ac ieithyddol dysgwyr.

Caiff cyfleoedd ar gyfer dysgu ac asesu yn y gweithle eu nodi, eu mapio yn unol â gofynion y CGC/Fframwaith Cymwysterau a Chredydau, tystysgrif dechnegol, a Sgiliau Hanfodol Cymru.  Fodd bynnag, anaml y caiff medrau Cymraeg eu hymgorffori mewn cynlluniau dysgu.

Mae darparwyr dysgu yn y gwaith yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol fel dogfen allweddol ar gyfer dysgwyr, staff hyfforddi, a chyflogwyr i gofnodi ac arwain dysgu.  Anaml y caiff medrau Cymraeg eu hymgorffori yn y cynlluniau hyn i sicrhau parhad a dilyniant.

**Cyflwyno rhaglen gydlynus o ddysgu Cymraeg sydd wedi’i gwreiddio yn yr arfer weithio bresennol**

- cael y cydbwysedd cywir o ran datblygu medrau yn Gymraeg; a
- chyfoethogi’r profiad dysgu Cymraeg trwy ddatblygu medrau cyflogadwyedd.

Caiff y ffactorau canlynol effaith glir ar ddatblygu medrau Cymraeg dysgwyr a’u gwybodaeth am y Gymraeg:

- cynllunio cyflwyno ar gyfer datblygu medrau Cymraeg a rhannu cynllunio gyda chyflogwyr i ennyn eu cymorth mewn dysgu trwy weithgareddau yn y gwaith, a sicrhau bod y rhain yn cael eu halinio’n agos â hyfforddiant i ffwrdd o’r gwaith;
- recriwtio staff sydd â chefndiroedd galwedigaethol cyfredol cryf ac arbenigwyr Cymraeg sy’n galluogi iddynt ymgysylltu â’u dysgwyr a chysylltu eu haddysgu â’r maes galwedigaethol ac â gweithle dysgwr;
- cyflwyno hyfforddiant ymarferol a theori mewn timau, i wneud y defnydd gorau o fedrau ymarferol arbenigol a gwybodaeth y staff am y Gymraeg;
- defnyddio deunyddiau adnodd dysgu Cymraeg sy’n annog dysgwyr i’w defnyddio y tu allan i sesiynau a addysgir neu gyda mentoriaid yn y gweithle;

- cynnwys addysgu yn y gweithle trwy weithio gyda mentoriaid sy’n siarad Cymraeg sy’n esbonio’r modd y caiff theori ei rhoi ar waith;
- cynnig gwasanaethau cymorth, er enghraifft ar gyfer Sgiliau Hanfodol Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg; a
- chynnig ystod o unedau galwedigaethol Cymraeg addas, fel cymwysterau Agored Cymru.

Cynlluniwyd cymhwyster Yr Iaith ar Waith CBAC i gael ei astudio ochr yn ochr â phynciau galwedigaethol. Mae’n galluogi myfyrwyr i wella eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig ac ennill cymhwyster cydnabyddedig yn dystiolaeth o’u gallu i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle. Mae’r cwrs yn addysgu myfyrwyr i ddelio’n effeithiol â chwsmeriaid trwy gyfrwng y Gymraeg, a gallu ymateb i sefyllfaoedd amrywiol mewn amgylchedd gwaith. Cynllunnir cymhwyster Yr Iaith ar Waith ar gyfer myfyrwyr Cymraeg mamiaith ac ail iaith a chynigir cymwysterau lefelau 1, 2 a 3 ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl, a Mynediad 3 hefyd, sy’n addas ar gyfer myfyrwyr Cymraeg ail iaith. Cynlluniwyd Defnyddio Iaith yn y Gwaith i gyd-fynd â chymwysterau galwedigaethol eraill.

**Sicrhau bod rhwystrau i gynnydd dysgwyr yn y Gymraeg yn cael eu lleihau i’r eithaf**

- nodi rhwystrau ar y cychwyn a bod yn effro i broblemau posibl a allai godi yn ystod y rhaglen; a
- sefydlu partneriaethau cryf gydag ystod o asiantaethau cymorth arbenigol, fel Sgiliaith a’r ganolfan Cymraeg i Oedolion leol.

Yn aml, nid yw dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn teimlo’n ddigon hyderus yn eu medrau Cymraeg i wneud unrhyw achrediad trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl iddynt adael yr ysgol uwchradd. Mae angen i ddarparwyr gael systemau cymorth ar waith i roi hyder i’r dysgwyr hyn i barhau i ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn dysgu yn y gwaith.

**Arweiniad atodol ar gyfer arolygu’r iaith Gymraeg mewn dysgu yn y gwaith, Medi 2013**

**2. 2: Addysgu neu hyfforddi**

- A oes dilyniant o weithgareddau dysgu galwedigaethol sy’n atgyfnerthu medrau dysgwyr mewn siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a’u cyd-ddibyniaeth?
- A yw geirfa Gymraeg a phatrymau brawddeg newydd yn cael eu hatgyfnerthu’n ddigonol i sicrhau bod dysgwyr Cymraeg ail iaith yn eu defnyddio gydag annibyniaeth gynyddol?
- A roddir cyfleoedd rheolaidd i’r holl ddysgwyr Cymraeg gymhwyso’r hyn y maent wedi’i ddysgu mewn sesiwn flaenorol ac adeiladu arno?
- A oes digon o ymyrraeth gan hyfforddwyr galwedigaethol i wella ansawdd a chywirdeb cymhwysedd llafar dysgwyr yn y Gymraeg?
- A yw hyfforddwyr galwedigaethol sy’n siarad Cymraeg yn gwneud defnydd cynyddol o’r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu mewn sesiynau ac mewn sefyllfaoedd eraill?
- Lle bo’n berthnasol, a yw dysgwyr yn cael cyfleoedd a chymorth da i ddatblygu eu medrau Cymraeg?

**Caiff arfer ragorol mewn hyfforddiant galwedigaethol mewn addysgu Cymraeg neu ddwyieithog yn aml ei nodweddu gan hyfforddwyr sydd:**

- yn meddu ar arbenigedd a dawn mewn maes dysgu;
- â disgwyliadau uchel ond realistig a ddefnyddir i gymell dysgwyr;
- yn gweddu i anghenion ieithyddol y dysgwyr yn Gymraeg, gan droi at Saesneg dim ond i sicrhau dealltwriaeth, os bydd angen;
- yn ysbrydoli ac yn herio pob un o'r dysgwyr ac yn eu galluogi i ymestyn eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth;
- yn galw i gof y sesiwn flaenorol yn gyflym ar ddechrau'r sesiwn;
- yn cynnig amcanion clir i'r sesiwn ar ffurf deilliannau dysgu disgwyliedig sy'n cael eu rhannu gyda dysgwyr ac yr ailedrychir arnynt wrth i'r sesiwn fynd rhagddi;
- yn rhoi esboniadau clir sy'n defnyddio iaith sy'n hygyrch i ddysgwyr tra'n datblygu eu geirfa'n briodol;
- yn defnyddio amrywiaeth o weithgareddau ysgogol gan gynnwys hyfforddi, addysgu a mentora;
- yn defnyddio holi yn effeithiol, sy'n profi dealltwriaeth;
- yn annog ac yn datblygu dysgu annibynnol;
- yn annog dysgwyr i ddatrys pethau drostynt eu hunain (cwestiynau sydd hefyd yn cael eu targedu'n sensitif yn unol â'u gallu yn Gymraeg);
- yn cynnig tasgau heriol a dychmygus sy'n ennyn diddordeb myfyrwyr ac yn cefnogi'r broses ddysgu;
- yn defnyddio amrywiaeth eang o adnoddau i gynnwys defnydd priodol o'r rhyngrwyd/fideos/PowerPoint, ac ati;
- yn defnyddio dulliau amrywiol i ddarparu ar gyfer ystod o arddulliau dysgu, gan wirio'n barhaus bod y dysgwr 'yn dilyn';
- yn hwyluso dysgu annibynnol ac yn cynnwys arfarnu a chymorth unigol/cyfoedion;
- yn cynllunio ar gyfer dysgu y tu allan i sesiynau dysgu trwy dechnoleg, adolygiadau a sesiynau tiwtorial;
- yn hyrwyddo ac yn datblygu medrau dysgu annibynnol, er enghraifft trwy ddefnyddio ystod o dechnolegau, gan gynnwys amgylchedd dysgu rhithwir; ac
- yn cynllunio ar gyfer gwahanol anghenion ieithyddol grwpiau o ddysgwyr a dysgwyr unigol a sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni.

**2.2.2: asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu**

**Caiff gweithdrefnau asesu rhagorol mewn addysgu Cymraeg yn aml eu nodweddu gan hyfforddwyr sydd:**

- yn darparu adborth clir a rheolaidd ar gynnydd dysgwyr ar lafar ac yn ysgrifenedig;
- yn darparu camau clir ar sut i wella gwaith dysgwyr;
- yn rhoi asesiad priodol (yn aml yn anffurfiol) i brofi lefel dealltwriaeth ac felly'r cynnydd tuag at fodloni'r amcanion a nodwyd; ac
- yn rhoi amser ar ddiwedd y sesiwn i arfarnu i ba raddau y cyflawnwyd yr amcanion a thrafod cynnwys arfaethedig y sesiwn nesaf er mwyn i ddysgwyr allu gweld cyfeiriad y dysgu.

**Gweithdrefnau asesu clir i gofnodi cyflawniad a chyflymu cynnydd yn y Gymraeg**

- datblygir offer asesu Cymraeg cychwynnol da ar bob lefel;
- cynhelir adolygiadau rheolaidd o ddysgwyr i fonitro cynnydd yn eu medrau Cymraeg;
- sefydlwyd un asesydd sy'n siarad Cymraeg fel yr unigolyn cyswllt allweddol trwy gydol y rhaglen ac i gynorthwyo aseswyr i reoli eu beichiau gwaith hefyd;
- defnyddir systemau ar-lein i fonitro a chofnodi dysgu, lle maent ar gael; a
- gwneir y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer cymorth yn y gweithle, lle maent ar gael.

**Arweiniad atodol Estyn ar gyfer arolygu'r iaith Gymraeg mewn dysgu yn y gwaith, Medi 2013**

**2.3: Gofal, cymorth ac arweiniad**

- A roddir cymorth da i ddysgwyr sy'n hwyrddyfodiaid ac y mae eu cymhwysedd blaenorol yn y Gymraeg yn gyfyngedig, neu nid oes ganddynt unrhyw gymhwysedd blaenorol?
- A yw dysgwyr yn ymwybodol o fanteision dysgu Cymraeg a bod yn gynyddol ddwyieithog?

**Arweiniad atodol Estyn ar gyfer arolygu'r iaith Gymraeg mewn dysgu yn y gwaith, Medi 2013**

**2.4: Yr amgylchedd dysgu**

- A oes gan y darparwr ethos sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant ac agweddau cadarnhaol tuag atynt?
- A wneir defnydd helaeth o'r Gymraeg mewn arddangosiadau ac ar arwyddion o amgylch adeiladau'r darparwyr?
- A yw'r darparwr yn annog dysgwyr a staff i wneud defnydd cynyddol o'r Gymraeg ar y lefel briodol, fel cyfrwng cyfathrebu anffurfiol?

**Cwestiwn Allweddol 3: Arweinyddiaeth a rheolaeth**

**3. 1 Arweinyddiaeth**

**3. 1. 1: cyfeiriad strategol ac effaith arweinyddiaeth**
**3. 1. 2: llywodraethwyr neu gyrff goruchwylio eraill**
**3. 1. 3: bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol**

**Arweiniad atodol ar gyfer arolygu'r iaith Gymraeg mewn dysgu yn y gwaith, Medi 2013**

**3.1: Arweinyddiaeth**

- A yw'r darparwr yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol yn ymwneud â'r Gymraeg, yn unol â'r hyn a nodwyd yn Iaith Pawb a Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru?

**3. 1. 1: cyfeiriad strategol ac effaith arweinyddiaeth**

**Mae arweinwyr a rheolwyr rhagorol:**

**Yn adnabod y farchnad ac yn alinio'r ddarpariaeth Gymraeg yn unol ag anghenion cyflogwyr**

- maent yn dadansoddi anghenion hyfforddi Cymraeg presennol a'r dyfodol y sector(au) presennol y cynigir y ddarpariaeth ynddi/ynddynt;
- maent yn sicrhau bod cyflogwyr a dysgwyr yn ymwybodol o ystod lawn y ddarpariaeth a'r manteision y gall hyfforddiant Cymraeg eu cynnig i'w gyrfaoedd yn y dyfodol;
- maent yn cynnwys cyflogwyr mewn cynllunio rhaglenni hyfforddi galwedigaethol Cymraeg i sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar y medrau Cymraeg priodol; ac
- maent yn sicrhau ymrwymiad cyflogwyr i hyfforddi a chefnogi medrau Cymraeg dysgwyr yn y gweithle.

Yn aml, mae gan ddarparwyr rhagorol berthynas gynhyrchiol a chefnogol ar y ddwy ochr gydag ystod o gyflogwyr y mae angen staff sy'n siarad Cymraeg arnynt. Mae cyflogwyr mewn rhannau Cymraeg eu hiaith o Gymru neu sy'n gweithio'n gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg yn aml yn gweithio gyda staff darparwyr. Mae'r cyflogwyr hyn yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses hyfforddi ac yn cyfrannu'n ystyrlon at gynllunio a rheoli hyfforddiant galwedigaethol Cymraeg ym mhob cyfnod.

Mae uwch reolwyr yn aml yn arwain ar ymgysylltiad â chyflogwyr trwy gynnal ymweliadau blynyddol, anfon cylchlythyrau a holi safbwyntiau ar sut i wella eu gwasanaeth Cymraeg. Efallai bod ganddynt staff sy'n siarad Cymraeg i ymgysylltu â chyflogwyr, i godi ymwybyddiaeth am y darparwr a phwysleisio manteision hyfforddiant Cymraeg i'w busnesau.

Mae darparwyr yn sicrhau bod cyflogwyr yn dangos ymrwymiad cryf i gefnogi llwyddiant eu dysgwyr Cymraeg yn y gwaith.

Mae darparwyr yn gwneud yn siŵr bod cyflogwyr yn gallu bodloni'r gofynion Cymraeg sydd eu hangen yn y gweithle i alluogi dysgwyr i gael profiadau ychwanegol mewn defnyddio'r Gymraeg yn ogystal â'u cymwysterau galwedigaethol.

Mae cyflogwyr yn aml yn awgrymu testunau y maent am eu cynnwys yn eu hyfforddiant galwedigaethol Cymraeg; mae tiwtoriaid yn gweithio gyda'r cyflogwyr a'r dysgwyr i'w darparu. Mae'r darparwyr hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn profi arferion cyfoes yn y gwaith.

**Sefydlu diben ar y cyd a nodau uchelgeisiol ar gyfer dysgu, addysgu a hyfforddi yn Gymraeg**

- sicrhau bod ethos a blaenoriaethau'r sefydliad ar gyfer hyfforddiant Cymraeg yn cael eu deall ar bob lefel yn y sefydliad; a
- sefydlu diwylliant Cymreig hunanfeirniadol, uchelgeisiol sy'n perfformio'n dda.

Dylai diben a nodau uchelgeisiol eglur fod yn amlwg ym mhob agwedd ar waith darparwyr rhagorol wrth gyflwyno'r iaith Gymraeg. Mae angen i staff ar bob lefel yn y darparwr ddeall yn glir beth yw cyfeiriad strategol hyfforddiant Cymraeg.

Mewn darparwyr llwyddiannus, mae rheolwyr yn meithrin diwylliant hunanfeirniadol sy'n perfformio'n dda ar gyfer cyflwyno hyfforddiant Cymraeg. Maent yn gosod targedau heriol ar gyfer dysgwyr a staff. Maent yn sefydlu isadeiledd clir i gyflwyno'r targedau hyn. Mae rheolwyr yn arwain trwy esiampl ac yn meithrin awyrgylch o barch at y Gymraeg ymhlith staff a dysgwyr fel ei gilydd.

Bydd datblygu gweithlu sydd â'r profiad, y medrau, yr ymroddiad a'r ymrwymiad angenrheidiol i'r iaith Gymraeg i'w galluogi i anelu at fod yn 'rhagorol' yn Gymraeg yn her fawr i ddarparwyr.

**3. 1. 3: bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol**

**Mae arweinwyr a rheolwyr rhagorol:**

**Yn datblygu Cynllun Iaith Gymraeg**

- maent yn sicrhau bod gan y sefydliad Gynllun Iaith Gymraeg addas;
- mae ganddynt gynllun gweithredu manwl i gefnogi'r Cynllun Iaith Gymraeg;
- maent yn monitro'r cynllun gweithredu yn rheolaidd; ac
- maent yn adrodd am gynnydd wrth Gomisiynydd y Gymraeg bob blwyddyn.

Diben y cynllun iaith Gymraeg yw darparu manylion am y modd y bydd gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu. Paratoir pob cynllun yn ôl yr hyn sy'n briodol o dan yr amgylchiadau a'r hyn sy'n rhesymol yn ymarferol i'r sefydliad dan sylw.

Nod llawer o gynlluniau iaith Gymraeg yw creu ethos dwyieithog yn y gweithle a fydd yn rhoi mwy o hyder i staff ymarfer a defnyddio eu medrau Cymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Rhan o'r gwaith hwn yw gwneud yr iaith Gymraeg yn fwy gweladwy a chlywadwy yn y gweithle.

**Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn**

**Cwestiwn Allweddol 3**

**3. 2: Gwella ansawdd**

**3.2.1: hunanasesu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr a phobl eraill**
**3.2.2: cynllunio a sicrhau gwelliant**
**3.2.3: ymglymiad mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol**

**Arweiniad atodol ar gyfer arolygu'r iaith Gymraeg mewn dysgu yn y gwaith, Medi 2013**

**3.2: Gwella ansawdd**

- A oes gan reolwyr ar bob lefel safbwynt realistig ynghylch yr hyn y mae angen ei wneud i wella deilliannau a darpariaeth yn Gymraeg?
- A yw cynlluniau gwella yn nodi cynigion clir i fynd i'r afael â meysydd y mae angen eu datblygu?
- A oes tystiolaeth glir o ymrwymiad i fwrw ymlaen â'r agenda gwella mewn perthynas â Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru?

### 3.2.2: cynllunio a sicrhau gwelliant

**Mae arweinwyr a rheolwyr rhagorol:**

- wedi rhoi systemau effeithiol ar waith i arfarnu pob agwedd ar brofiadau galwedigaethol Cymraeg y dysgwyr.

Un o'r ffactorau hanfodol wrth sicrhau safonau uchel mewn dysgu galwedigaethol Cymraeg yw arsylwi pob agwedd ar y broses hyfforddi yn systematig. Mae pob un o'r arsylwyr yn siaradwyr Cymraeg hyderus sydd wedi cael hyfforddiant.

Mae rhai darparwyr yn defnyddio arsylwyr cymheiriaid o ddarparwyr eraill, i gadarnhau trylwyredd graddio sesiynau galwedigaethol Cymraeg.

Mae arsylwi effeithiol mewn sesiynau galwedigaethol Cymraeg yn dweud wrth reolwyr:

- pa mor effeithiol yw sesiynau galwedigaethol Cymraeg 'a addysgir' i ffwrdd o'r gwaith;
- pa mor effeithiol yw'r adnoddau a ddefnyddir ar gyfer cyflwyno hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yn Gymraeg;
- pa mor dda y caiff hyfforddiant Cymraeg ei gyflwyno yn y gweithle; a
- pha mor dda y mae adolygiadau a'r targedau a osodir yn nodwedd hanfodol wrth gynnal a gwella cyfraddau llwyddo amserol.

Mae hefyd:

- yn nodi arfer orau yn Gymraeg gan y darparwr a'u cyflogwyr, gan helpu i nodi rhagor o welliannau posibl;
- yn rhoi corff o 'dystiolaeth gadarn' uniongyrchol ar gyfer hunanasesu trwy raddio gweithgareddau wedi'u harsylwi, gan ddangos p'un a yw gwahanol agweddau yn gwella;
- yn nodi meysydd y mae angen eu datblygu'n benodol ac mewn modd teilwredig mewn hyfforddiant Cymraeg ar gyfer tiwtoriaid a hyfforddwyr unigol.

**Arweiniad atodol ar gyfer arolygu'r iaith Gymraeg mewn dysgu yn y gwaith, Medi 2013**

**3.3:**

- A yw'r darparwr yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â darparwyr eraill i ymestyn argaeledd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir i ddysgwyr, yn enwedig i fodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)?
- A oes cydweithio rhwng ysgolion uwchradd a darparwyr yn y gwaith i sicrhau cysondeb a dilyniant ym mhrofiadau dysgu dysgwyr yn y Gymraeg yn y cyfnod pontio?
- I ba raddau y mae'r darparwr yn manteisio ar y cymorth a gynigir gan gyrff eraill, fel Sgiliaith[2], Mentrau Iaith[3] a chonsortia rhanbarthol Cymraeg i Oedolion?

**Arweiniad atodol ar gyfer arolygu'r iaith Gymraeg mewn dysgu yn y gwaith, Medi 2013**

**3.4: Rheoli adnoddau**

- Lle bo'n berthnasol, a oes gan y darparwr ddigon o staff sy'n gallu hyfforddi'n effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg i sicrhau dilyniant a pharhad mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg?
- A yw pob hyfforddwr sy'n cyflwyno hyfforddiant Cymraeg galwedigaethol yn hyderus i wneud hynny?
- Lle bo'n berthnasol, a oes cymorth o ansawdd da ar gyfer hyfforddwyr Cymraeg galwedigaethol anarbenigol ac ar gyfer staff eraill o fewn y darparwr, fel cymryd rhan yn y Cynllun Sabothol[4] neu raglen hyfforddi Gymraeg arall?
- A yw'r darparwr yn cymryd pob cam rhesymol mewn perthynas â chost-effeithiolrwydd cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg?

---

[2] Mae Canolfan Sgiliaith yn cynnig cymorth ar ddwyieithrwydd a medrau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg i golegau addysg bellach. Mae'n cynnig cyngor ymarferol ar arfer dda, hyfforddiant staff ac adnoddau, gyda'r nod o wella medrau a phrofiadau dwyieithog myfyrwyr.

[3] Mae'r Mentrau Iaith yn cefnogi ymdrechion i gynnal yr iaith ar lefel gymunedol. Mae Cynlluniau Gweithredu Iaith mewn ardaloedd dynodedig hefyd a sefydlwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynt i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn ardaloedd ag iddynt arwyddocâd ieithyddol arbennig trwy gydlynu gweithgareddau ar gyfer pobl a sefydliadau lleol. Mae'r Mentrau Iaith a'r Cynlluniau Gweithredu Iaith yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol ar brosiectau amrywiol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

[4] Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw'r 'cynllun sabothol' i gynyddu nifer yr athrawon a'r darlithwyr cymwys sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhaliwyd y cwrs cyntaf yng ngwanwyn 2006.

**Mae arweinwyr a rheolwyr rhagorol:**

**yn recriwtio ac yn datblygu staff sy'n meddu ar arbenigedd ar gyfer datblygu hyfforddiant a medrau yn Gymraeg**

Mae'r cysyniad 'tyfu eich cynnyrch eich hun' yn gweithio'n dda mewn sectorau addysg eraill yng Nghymru o ran hyfforddwyr Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys recriwtio unigolion sydd â'r medrau Cymraeg cywir a'r profiad cywir yn y sector, ac wedyn datblygu eu medrau addysgu ac asesu gyda chymorth agos mentoriaid. Mae'r darparwyr hyn yn gwerthfawrogi eu staff ac fe gydnabyddir eu cyflawniadau. Rhennir brwdfrydedd am hyfforddiant Cymraeg, sy'n amlwg wrth siarad â rheolwyr, hyfforddwyr, aseswyr neu staff cymorth. Mae staff yn falch o weithio i'r darparwyr hyn ac mae trosiant yn isel.

**datblygu arbenigedd staff yn y Gymraeg**

- sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau archwiliad o'u medrau Cymraeg;
- cael digon o staff sy'n siarad Cymraeg i gynorthwyo dysgwyr ar bob lefel;
- cael rhaglen hyfforddi Gymraeg i wella medrau staff, lle mae'n ofynnol;
- darparu cyfleoedd rheolaidd i staff wella eu datblygiad proffesiynol; a
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan staff a dysgwyr yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith.

Dylai pob aelod o staff yn y darparwr gael cyfle i gwblhau archwiliad o'u medrau Cymraeg. Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â CBAC, wedi datblygu asesiadau ar-lein i gynorthwyo cyflogwyr yng Nghymru i nodi eu hanghenion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Mae'r wefan hon yn helpu cyflogwyr i nodi'r swyddi yn eu sefydliadau sy'n gofyn am fedrau iaith a fydd yn helpu cyflogwyr i nodi medrau iaith presennol eu gweithle.

Dylai fod gan ddarparwyr ddigon o staff sy'n siarad Cymraeg i gyflwyno hyfforddiant a chymorth i ddysgwyr ar bob lefel. Efallai bod dysgwyr sydd wedi mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn meddu ar fedrau llafar da ond bod angen rhagor o gymorth arnynt i ysgrifennu yn Gymraeg. Mae angen rhagor o gymorth ar ddysgwyr Cymraeg ail iaith i ddatblygu eu medrau Cymraeg llafar. Bydd gan y ddwy set o ddysgwyr wahanol anghenion ieithyddol a gwahanol lefelau o gymorth.

Mae gan ddarparwyr raglen hyfforddi Gymraeg i wella medrau staff, lle bydd angen. Mae darparwyr yn cynnig cyfleoedd rheolaidd cynlluniedig i staff wella eu medrau proffesiynol trwy raglen gynlluniedig ar gyfer datblygiad staff.

Gall darparwyr gael cyngor a chymorth gan Hyrwyddwr Dwyieithog Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.